

# Geiriau ac adenydd



## Cam Sylfaen

1 sesiwn wedi hwyluso gydag opsiwn o ddarlunio arsylwadol

### Disgrifiad byr:

Ydych chi'n hoffi ysgrifennu straeon? Dysgwch fwy am hanes rhyfeddol go iawn monoplan coch yr Amgueddfa, i'ch sbarduno i ysgrifennu'ch stori eich hun.

Bydd Thomas Docherty, yr awdur a'r darlunydd lleol o fri, yn esbonio sut gall ffaith fod yn fan cychwyn delfrydol i chi fynd ar eich trywydd dychmygol eich hun.

### Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd


Amser a phobl

Dylid rhoi cyfleoedd i blant:

- ddechrau adnabod gwahaniaethau rhwng ffyrdd o fyw gwahanol gyfnodau
- defnyddio ystod o ffynonellau hanesyddol, gan gynnwys arteffactau ac adeiladau

### Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu

- profi gweithgareddau yn yr amgylchedd dysgu dan do ac yn yr awyr agored
- adrodd ac ailadrodd straeon, rhai gwir a rhai dychmygol.



### Amcanion dysgu:

- ymgysylltu ag arddangosfeydd yr Amgueddfa a chydymdeimlo â'u hanesion
- myfyrio ar brofiadau a defnyddio'r dychmyg i greu straeon
- helpu disgyblion i drafod syniadau fel grŵp yn ogystal â datblygu rhywfaint o waith ar eu pen eu hunain
- cymryd rhan mewn profiad addysgol sy'n greadigol, yn hwyl ac yn eang ei gwmpas

# Geiriau ac adenydd

		Gellir addasu'r sesiwn hon ar gyfer grwpiau ag anghenion arbennig – cysylltwch â ni i drafod. <a href="mailto:Learning.waterfront@museumwales.ac.uk">Learning.waterfront@museumwales.ac.uk</a>
Gweithgaredd	Sgiliau	FfLR
<p><b>Sesiwn geiriau:</b> arweinir y sesiwn hon gan Thomas Docherty sy'n awdur ac yn ddarlunydd llyfrau lluniau i blant. Bydd yn dechrau drwy rannu un o'i lyfrau a thrwy esbonio'r hyn sydd wedi'i ysbrydoli a sut y mae ei brofiadau wedi'i helpu i ddatblygu'r stori. Bydd yn archwilio sut y gall y disgyblion ddefnyddio profiadau go iawn i greu eu straeon cyfoethog llawn dychymyg eu hunain. Defnyddir gwrthrychau'r amgueddfa i gyffroi'r dychymyg a'u hysbrydoli. Bydd y disgyblion yn edrych ar nifer o wrthrychau'r Amgueddfa ac yn trafod sut y gallai'r rhain fod yn fan cychwyn ar gyfer stori newydd, neu ar gyfer elfen o'r stori honno. Bydd y disgyblion yn dewis eu hoff wrthrych ac yn dechrau datblygu stori ar ei sail, gan fanteisio gymaint ag y bo modd ar eu profiad a'u dychymyg nhw eu hunain. Fe'u hanogir hefyd i greu darluniau i gyd-fynd â'u stori lle bynnag y bydd hynny'n briodol yn eu barn nhw. Daw'r sesiwn i ben drwy rannu'r straeon a'r lluniau.</p> <p>NEU</p> <p><b>Sesiwn adenydd:</b> yn ystod y sesiwn wedi'i hwyluso hon, bydd y disgyblion yn dysgu am ddylunio ac adeiladu'r <i>Robin Goch</i>, un o'r enghreifftiau cynharaf o awyren yn y Deyrnas Unedig. Dyma'r unig awyren faes o'i math yng Nghymru.</p>	<p><b>Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• gwrando ar syniadau pobl eraill</li> <li>• meddwl yn greadigol a dychmygus</li> </ul> <p><b>Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• trefnu a chyflwyno ysgrifennu dychmygus a ffeithiol mewn gwahanol ffyrdd</li> <li>• gwrando ar amrywiaeth o straeon</li> </ul>	<p><b>Llythrennedd</b></p> <p>Llafaredd: Datblygu a chyflwyno gwybodaeth a syniadau. Agwedd: cydweithio a thrafod.</p> <p>Ysgrifennu: trefnu syniadau a gwybodaeth. Agwedd: ystyr, pwrpasau, darllenwyr</p>

# Geiriau ac adenydd

Bydd disgyblion yn dysgu am beirianeg arloesol ei hadeiladwr, Charles Horace Watkins, a oedd yn hanu o Gaerdydd.

## Adnoddau y bydd eich disgyblion yn eu defnyddio yn ystod yr ymweliad:

Gall athrawon gynllunio i dreulio'r prynhawn yn tynnu lluniau arsylwi yn yr orielau. Gellir defnyddio'r rhain yn ôl yn yr ystafell ddosbarth i ddarlunio'r straeon y mae'r disgyblion wedi dechrau eu creu. Dewch â phensilau, papur a byrddau clip gyda chi.

## Gwybodaeth Iechyd a Diogelwch i ysgolion:

- [www.amgueddfacymru.ac.uk/addysg/iechydadiogelwch](http://www.amgueddfacymru.ac.uk/addysg/iechydadiogelwch)

## Paratoi:

- Mae nodiadau ar gael i athrawon am y monoplan, y *Robin Goch*.
- Archwilio thema teithiau. Ar ba deithiau rydych chi wedi bod a sut roeddech chi'n teimlo? Pa deithiau enwog eraill rydych chi wedi clywed amdanynt a pham mae'r rhain yn enwog? Beth oedd y gwahanol foddau teithio a ddefnyddiwyd?

## Gweithgareddau dilynol:

- Mae nodiadau ar gael i athrawon am y monoplan, y *Robin Goch*
- Meddwl am synau'r gwaith adeiladu a sŵn profi'r peiriant hedfan, yr injan ac am y gwahanol amgylchiadau hedfan y gallai Watkins fod wedi'u hwynebu. Defnyddio offerynnau taro a'r llais i greu darn cerddorol.
- Adrodd hanes y *Robin Goch* eto gan ddefnyddio animeiddio neu becyn meddalwedd
- Darllen straeon eraill gan yr awdur a'r darlunydd, Thomas Docherty.

## Dolenni:

[www.thomasdocherty.co.uk/Illustration.htm](http://www.thomasdocherty.co.uk/Illustration.htm)